**Tasg 2**

# Yr ŵyl (1)

## Cerdyn post

Darllenwch y cerdyn post eto.

Sylwch yn arbennig ar y ffordd mae'r cerdyn wedi ei ysgrifennu.

Dwi'n cael amser gwych. Mae pedwar llwyfan yma. Mae'r bandiau byw yn canu arnyn nhw bob nos. Mae'n anodd dewis ble i fynd weithiau – mae pob band mor dda.

Dw i ddim yn cael llawer o gwsg. Rydyn ni'n mwynhau'r gerddoriaeth tan oriau mân y bore. Rydyn ni'n dawnsio yn y caeau hefyd. Mae hi'n dal yn gynnes yng nghanol y nos!

Dw i ddim wedi ymolchi ers dydd Gwener. Mae fy nillad i'n fwdlyd. Maen nhw'n ddrewllyd hefyd. Bydd rhaid i fi eu taflu nhw cyn gadael! Mae'r toiledau'n OFNADWY!

Mae hi wedi bod yn bwrw glaw yn drwm iawn. Mae mwd ymhobman. Ych a fi! Mae fy mwyd i'n sych, diolch byth! Maen nhw yn y wheelie bin des i gyda fi.

Dw i'n cysgu mewn pabell. Mae hi reit yng nghanol y cae. Dw i'n cael problemau ei ffeindio hi weithiau. Mae llawer o bebyll yn edrych yr un fath. Edrych ymlaen at dy weld di a'r band mewn pythefnos.

Alex

1ST

*Ceri Smith*

*10 Ffordd y*

*Bryn*

*Dinbych*

*LL98 7XX*

1. Sut mae'r cerdyn wedi ei ysgrifennu?




a. Trafodwch y cwestiwn gyda'ch partner.

Copïwch enghreifftiau o'r darn i gefnogi'r hyn rydych chi'n ei ddweud.

b. Cymharwch eich syniadau chi â syniadau grwpiau eraill.

2. Sut mae gwella'r ffordd mae'r cerdyn wedi ei ysgrifennu?

a. Trafodwch y cwestiwn gyda'ch partner.
b. Cymharwch eich syniadau chi â syniadau grwpiau eraill.

3. Ail-ysgrifennwch y darn ond ceisiwch wella'r testun. Triwch gysylltu rhai o'r brawddegau drwy ddefnyddio geiriau fel:

**a / ac** **ond** **hefyd** **achos / oherwydd**

**felly** **lle** **sydd** **ac felly**

4. Pam mae Alex wedi defnyddio prif lythrennau ar gyfer y gair OFNADWY?

5. Beth yw ystyr yr ymadrodd 'oriau mân y bore'?

6. Mae'r gair 'cwsg' yn enw. Y berfenw yw 'cysgu'. Llenwch y bylchau yn y grid yma:

| enw | berfenw |
|---|---|
| dawns | |
| | canu |
| glaw | |
| | bwyta |
| oerfel | |
| | sychu |
| gwersyll | |
| | mwynhau |